# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 08.12.14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr, Annwen Hughes, Llywarch Bowen Jones, Dilwyn Lloyd, W.Tudor Owen, Peter Read, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Siôn Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Williams (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones Williams, Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Huw Edwards a Louise Hughes. Nodwyd bod y Cynghorydd Huw Edwards yn wael iawn a bod aelodau'r Pwyllgor yn anfon eu dymuniadau gorau ato am wellhad buan.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

**Teledu Cylch Cyfyng (TCC)**

Cyfeiriwyd at ddigwyddiad yn Abermaw lle bu i'r Heddlu adrodd wrth y Cynghorwyr Eryl Jones Williams ac Annwen Hughes nad oedd TCC yn gweithio neu wedi ei ddiffodd i ffwrdd mewn rhai safleoedd. Adroddodd Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu ei bod wedi trafod y mater gydag Mr Ian Williams o'r Heddlu ac ymddengys bod problemau gydag offer ddim yn gweithio neu fod staff ddim yn ymwybodol o sut i lawr lwytho / casglu gwybodaeth.

Cyfeiriwyd at yr amodau TCC sydd yn cael eu cynnwys ar nifer o geisiadau trwyddedu. Rhaid ystyried yr angen i fonitro a chosbi os nad yw'r amod yn cael ei weithredu. Eglurwyd bod angen i eiriad yr amod fod yn gynhwysfawr er mwyn cosbi.

Atgoffwyd yr aelodau hefyd os yw amod yn cael ei thorri, bod gan y Cynghorwyr neu'r Heddlu hefyd yr hawl i wneud cais am adolygiad o'r drwydded.

**PENDERFYNWYD cynnwys y mater fel eitem ar y Pwyllgor nesaf (9.3.15) a gwahodd Mr Ian Williams o'r Heddlu i fynychu gan mai yr Heddlu sydd fel arfer yn cyflwyno amodau TCC.**

## 4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Medi 2014, fel rhai cywir yn ddarostyngedig ar;

i. Cywiro enw'r Cadeirydd - Eryl Jones Williams ac nid Eryl Lloyd Williams yn eitem 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

## 5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 3.9.2014 a 25.9.2014.

Gofynnwyd cwestiwn i'r Cyfreithiwr os oedd gan aelod yr hawl i gynrychioli ymgeisydd mewn gwrandawiad os oes gan yr aelod hwnnw fudd personol. Os bydd gan yr aelod fudd personol a ddylai fod yn aelod o'r Pwyllgorau Trwyddedu?

Mewn ymateb, nodwyd mai cyfrifoldebau'r pleidiau Gwleidyddol yw penodi unigolyn ar bwyllgor - sedd i'r grŵp sydd yn cael ei gynnig.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:40a.m a daeth i ben am 10:55am